# Lluniau Julius Caesar

Gan DEWI WILLIAMS

YN YSTOD ail hanner y 18ed ganrif cynyddai rhif yr arlunwyr, llysieuwyr a theithwyr a ddeuai o Loegr i Gymru, yn arbennig y rhai oedd wedi drachtio'n helaeth o win rhamantiaeth... Turner yn ddiau oedd yr enwocaf o'r arlunwyr ond mae'n werth cydnabod fod talent frodorol Richard Wilson wedi bod yn ddylanwad ar sawl un o'r ymwelwyr.

Cynrychiola cynnyrch yr arlunwyr eu hymateb i'w hamgylchedd ond hefyd gellir ystyried eu creadigaethau fel ffynonellau hanesyddol y dylid rhoi mwy o sylw ac amlygrwydd iddynt.

Un arlunydd arbennig a ymwelodd â Chymru nad yw ei enw yn or-hysbys oedd Julius Caesar Ibbetson 1759-1817, yn enedigol o Swydd Efrog. Amgylchiadau ei enediageth fu'r rheswm tros y dewis anghyffredin o enw. Gwyddom iddo deithio trwy Dde Cymru ym 1789 a'r Gogledd ym 1792.

Nid oedd Ibbetson yn gymaint o ramantydd a sawl un o'i gyfoeswyr. Arbenigai mewn portreadau, adeiladau a golygfeydd trefol. Mae llawer o'i luniau yn mynegi ei ddiddordeb mewn agweddau o fywyd cefn gwlad megis torri mawn, prysurdeb y farchnad a chanu penillion.



*Llun o farchnad yng Nghymru. Darlun trwy ganiatâd Oriel Laing Newcastle upon Tyne.*

TYBIAIS y byddai enghreifftiau o'i waith o ddiddordeb i ddarllenwyr **Y Casglwr.** Prawf y phaeton, sef y cerbyd ysgafn a dynnid gan bâr o geffylau, fod dau o'r lluniau yn perthyn i'r daith a wnaeth trwy Ogledd Cymru yn 1792. Perchennog a gyrrwr y cerbyd oedd cyfaill yr arlunydd, yr Anrhydeddus Robert Greville.

Yr oedd arlunydd arall yn gydymaith iddynt, sef John 'Warwick' Smith a cheir portread pur debyg o storm ym mwlch Aberglaslyn ganddo yntau. Olew oedd cyfrwng Ibbetson y tro hwn ond dyfrlliw yw'r darlun gan Smith sydd yn y Llyfrgell Genedlaethol.


Cynhwysir aquatint yr ail ddarlun o'r teithwyr yn y cerbyd mewn cyfrol o'r enw "Picturesque Guide" gan John Baker gyhoeddwyd yn 1798. Llygriad o Foel Hebog yw 'Mohill Hadog" y teitl, ond i'r cyfarwydd nid oes unrhyw fath o debygrwydd i ffurf a lleoliad y mynydd yn y darlun. Yn wir, mae mwy o debygrwydd i Foel-y-Gest ynddo a gellir damcanu mai golygfa ar gyrion Cricieth wrth edrych tua'r Greigddu a Meirionnydd sydd yma.

Mae naws nodweddiadol Gymreig i'r dref farchnad yn nyfrlliw Ibbetson. Gallai fod yn dref yn y Canolbarth er fod ei fywgraffydd, gwraig o'r enw Rotha M. Clay, yn tybio mai tref yng ngogledd Cymru ydyw. A yw yn adnabyddus i rywun tybed?

Gall dyfalu lle yn union a gyfleir gan arlunydd fod yn ymarferiad di-bwrpas ond credaf y gellir ystyried lluniau Ibbetson fel cofnod pur gywir o'r hyn a welodd a bod gwerth ychwanegol iddynt oherwydd hynny.



*Llun o fflach mellten yn Aberglaslyn. Darlun trwy ganiatâd Oriel Dinas Leeds.*



*Er mai "Mohill Hadog" sydd o dan y llun mae'n weddol amlwg mai darlun o Foel-y-Gest sydd yma.*

* * *

# COFIO GERALLT

*YMHELL cyn i'r teithwyr a'r arlunwyr ddod i gofnodi eu hargraffiadau o Gymru yr oedd Gerallt Gymro wedi ymlwybro o Went i Wynedd gyda'r Archesgob Baldwin o Gaergaint i geisio denu'r Cymry i uno yn y croesgadau i ryddhau Caersalem. Dethlir y siwrnai honno naw can mlynedd yn ôl, eleni.*

*Hanner Cymro a chrap pur wantan ar y Gymraeg ganddo oedd Gerallt, ond doedd un dim o'i le ar ei ddychymyg a daeth ei hanes o'r daith ynghyd â chyfrol o Ddisgrifiad o Gymru yn enwog a throswyd y naill a'r llall o'r Lladin gwreiddiol i'r Saesneg yng nghyfres Everyman.*

*Ond bu'n rhaid aros hyd yn gymharol ddiweddar am gyfieithiad Cymraeg safonol ond, mae'r un a gafwyd gan Thomas Jones yn 1938 yn sylweddol well na'r un Saesneg ac yn ddarllen difyr iawn.*